# Crynodeb o Hunanasesiad

## 2024-25



monmouthshire
sir fynwy

# Crynodeb

Rydym am fod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ym mhob cam o fywyd. Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau ac ochr yn ochr â'n cymunedau i gyflawni hyn. Dyma'r pwrpas clir a sefydlwyd gan ein Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Mae'r hunanasesiad blynyddol yn un o'r ffyrdd yr ydym yn adrodd ar gynnydd ac yn nodi lle mae angen i ni wneud gwelliannau pellach. Yn bwysig, mae'n caniatáu i ni gael ein dwyn i gyfrif gan Gynghorwyr etholedig a phobl leol.

Mae awdurdodau lleol yn darparu ystod eang o wasanaethau. Ni all y gwerthusiad hwn gwmpasu pob un ohonynt. Yn lle hynny, rydym wedi canolbwyntio ar y chwe amcan yn ein cynllun. Y tu hwnt i'r manylion a welwch yma, mae gennym bwyllgorau craffu, cynlluniau busnes a mesurau perfformiad ar waith. Mae'r rhain yn caniatáu i ni gael ein dal yn atebol am bob agwedd ar ein gwaith. Rydym hefyd yn dibynnu ar waith ein tîm archwilio mewnol a rheoleiddwyr allanol fel Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru i ddarparu lens annibynnol.

Crynodeb yw hwn o hunanasesiad llawnach sydd ar gael ar ein gwefan (na sy'n fyw eto). Mae'r asesiad hefyd yn gwerthuso effeithiolrwydd y pethau nad ydynt bob amser yn weladwy i drigolion. Mae'r rhain yn cynnwys rheolaeth ariannol, defnyddio asedau, caffael ac Adnoddau Dynol. Mae ystyried y rhain yn ein helpu i nodi meysydd i'w datblygu ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Gallwch ddod o hyd i'r rhain tua diwedd y crynodeb hwn.

## Ein hamcanion

**Lle teg**
I fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau

**Lle gwyrdd**
I fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur

**Lle ffyniannus ac uchelgeisiol**
Lle sydd â chanol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu

**Lle diogel**
Lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo

**Lle cysylltiedig**
Lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi

**Lle i ddysgu**
Lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial



# Pa mor dda ydym ni'n deall ein cyd-destun a'n lle lleol?

Mae Sir Fynwy yn lle gwych i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Rydym wedi gwneud ymrwymiad clir i weithio gyda chymunedau ac ochr yn ochr â nhw, gan ymrymuso pobl i gefnogi ei gilydd a llunio atebion hirdymor. Un enghraifft yw'r ffordd yr ydym wedi ymgysylltu â thrigolion a busnesau wrth gynhyrchu ein Cynllun Datblygu Lleol Amnewid. Pan gaiff ei gymeradwyo, bydd yn llunio defnydd tir yn y sir yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc a theuluoedd fyw a gweithio'n lleol. Mae hefyd yn cynnwys ymrwymiadau uchelgeisiol i ddarparu cartrefi mwy effeithlon o ran ynni a fforddiadwy. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ar gynhyrchu cynlluniau creu lleoedd i wella canol trefi Sir Fynwy.

Yn Hydref 2024, cwblhaodd ychydig o dan 1,500 o bobl ein harolwg ar gyfer trigolion. Helpodd hyn i gynyddu ein dealltwriaeth o ganfyddiadau pobl o'u Cyngor lleol a'r lle maent yn byw. Rhoddodd yr arolwg linell sylfaen i ni fel y gallwn fesur a ydym yn gwella. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi lansio gwefan Gadewch i Ni Sgwrsio am Sir Fynwy i'w gwneud hi'n haws i bobl gael sgyrsiau am y polisïau a'r newidiadau sy'n effeithio arnynt. Byddwn yn gwahodd pobl cyn hir i ymuno â fforwm trigolion fel y gallwn gael sgyrsiau mwy manwl.





# Pa mor dda ydym ni'n cyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt?

Rydym wedi asesu cynnydd yn erbyn ein hamcanion gan ddefnyddio graddfa chwe phwynt. Mae hyn yn sgorio pob amcan o 1 (anfoddhaol) hyd at 6 (rhagorol). Ar ôl yr etholiadau lleol ym mis Mai 2022, gwnaethom gymryd amser i ddeall beth sy'n bwysig i bobl a gosod y sylfeini ar gyfer sicrhau  gwelliannau. Roedd hyn yn cynnwys strategaethau newydd ar gyfer yr hinsawdd, yr economi a bwyd. Mae llawer o'r pethau yr ydym wedi ymrwymo iddynt, fel gwella iechyd afonydd Gwy ac Wysg, cyflawni sero net a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, yn heriau cymhleth na fyddant yn cael eu datrys yn gyflym. Mae'r asesiad hwn yn dangos trywydd cadarnhaol o welliant. Mae'r saethau wrth ymyl pob un o'r amcanion isod yn nodi'r newid yn yr asesiad dros y tair blynedd diwethaf tra bod y lliwiau'n cydberthyn â'r sgoriau.




Ein Hasesiad: 4 (Da)

## Lle teg i fyw

Rydym wedi bod yn gweithio'n galed i wella cyfleoedd bywyd i bobl, waeth beth fo'u hincwm neu eu cefndir. Mae hyn yn cynnwys darparu cefnogaeth dargedig i'r rhai sy'n profi anfantais. Bydd y newidiadau rydym wedi bod yn eu gwneud yn cymryd amser cyn iddynt wneud gwahaniaeth i ganlyniadau. Yn y cyfamser, rydym wedi rhoi atebion ar waith i liniaru effeithiau anghydraddoldeb.

Rydym wedi cynyddu nifer y lleoedd gofal plant Dechrau'n Deg sydd ar gael. Ers mis Ebrill 2023, mae 210 o blant ychwanegol wedi elwa o hyn, gan sicrhau bod mwy o blant mewn ardaloedd difreintiedig yn gallu cael mynediad at ddysgu sylfaenol allweddol. Mae hefyd yn darparu gofal plant am ddim i rieni sy'n caniatáu iddynt ddychwelyd i'r gwaith, sydd yn ei dro yn arwain at incwm aelwydydd uwch. Mae nifer y lleoedd gofal plant preifat yn Sir Fynwy wedi gostwng. Rydym yn cydnabod bod cael mynediad at ofal plant fforddiadwy yn heriol i rai pobl. Rydym yn gwneud yr hyn a allwn drwy agor mwy o gyfleusterau ochr yn ochr â'n hysgolion cynradd fel yr un a agorodd yn Nhryleg ddechrau 2025.

Gall prydau bwyd iach, am ddim yn yr ysgol helpu i leihau ansicrwydd bwyd a gwella cydraddoldeb mewn canlyniadau iechyd ac addysg. Rydym wedi mynd y tu hwnt i'n dyletswydd statudol i ddarparu brecwast am ddim a phryd bwyd ffres wedi'i goginio amser cinio i bob disgybl ysgol gynradd. Mae'r nifer sy'n manteisio ar hyn wedi bod yn cynyddu ond mae'n amrywio rhwng ysgolion. Rydym yn gweithio gydag ysgolion, rhieni a disgyblion i ddeall y rhesymau dros hyn ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn manteisio ar y cynnig hwn.

Rydym wedi darparu cefnogaeth dargedig i leihau anghydraddoldebau, gan gynnwys darparu darpariaeth chwarae am ddim neu â chymhorthdal i 2,463 o bobl ifanc yn ystod gwyliau'r ysgol. Gwnaethom ddarparu Bwyd a Hwyl a ddarparodd 8,950 o brydau iach i bobl ifanc. Rydym hefyd wedi helpu trigolion i wella eu hiechyd a'u ffitrwydd trwy'r cynllun cyfeirio ymarfer corff cenedlaethol. Cwblhaodd 66% o'r bobl a gofrestrodd y rhaglen. Adroddodd tri chwarter o'r rheini welliant mewn lles a hapusrwydd. Gwnaethom hefyd weithio gyda phobl leol i ddatblygu ac agor Hwb Cymunedol Magwyr a Gwndy gwerth £2.9M sydd yn cydnabod angen hirhoedlog yn y gymuned sy'n tyfu hon.

Rydym nawr yn gweithio i sicrhau y gellir adnabod pobl a fyddai'n elwa o gymorth yn hawdd. Un enghraifft yw ein cyfranogiad mewn cynllun peilot i nodi trigolion a allai fod yn colli allan ar fudd-daliadau sy'n seiliedig ar brawf modd fel y gallwn wella'r nifer sy'n eu hawlio.





Lle gwyrdd

I fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon, a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur

Ein Hasesiad: 3 (Digonol)

## Lle gwyrdd i fyw

Rydym yn cymryd camau lleol i leihau ein hallyriadau carbon a chwarae ein rhan wrth fynd i'r afael â chynhesu byd-eang. Er gwaethaf wynebu heriau systemig i gyrraedd ein huchelgais o gyflawni sero net erbyn 2030, rydym yn gwneud cynnydd da.

Rydym wedi bod yn brysur yn ailosod goleuadau LED, paneli solar a phympiau gwres yn ein hadeiladau cyhoeddus. Dros amser, mae hyn yn lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau carbon a bydd yn arwain at filiau ynni is yn y dyfodol. Rydym wedi agor dau adeilad pwrpasol, effeithlon o ran ynni, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gymryd lle cyfleusterau sy'n heneiddio; Cartref Parc Severn View ac ysgol y Brenin Harri VIII 3-19, ysgol uwchradd carbon niwtral. Mae adeiladu wedi cynyddu ein hallyriadau yn y tymor byr ond byddwn yn elwa o'r manteision amgylcheddol ac ariannol am flynyddoedd lawer i ddod.

Un o'r ffynonellau mawr eraill o allyriadau yw trafnidiaeth. Rydym wedi cynyddu canran y cerbydau allyriadau isel iawn yn ein fflyd o 8% yn 2022 i 16% heddiw. Byddwn yn parhau i gynyddu hyn fesul achos. Rydym yn datblygu cynlluniau i gynyddu'r seilwaith gwefru cerbydau trydan yn y sir, gan gynnwys gwefru ar y stryd. Rydym hefyd wedi gwella llwybrau cerdded a beicio, a elwir yn aml yn deithio llesol. Rydym wedi sicrhau £6.5M mewn cyllid newydd i'r sir ac wedi creu neu wella 19 o lwybrau yn y flwyddyn ddiwethaf gan ddod â'r cyfanswm i dros gant. Mae cyllid bellach ar waith ar gyfer pont newydd yn Llan-ffwyst.

Mae ein trigolion wedi gwneud cyfraniad sylweddol at yr agenda werdd drwy ailgylchu 72.18% o wastraff cartrefi y llynedd - un o'r cyfraddau uchaf yn y DU. Gwyddom fod iechyd afonydd wedi bod yn broblem enfawr ac wedi'i hachosi'n bennaf gan ddefnydd tir a llygredd i fyny'r afon o'n sir. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid gan gynnwys trwy Fwrdd Rheoli Maetholion Gwy i nodi a dadansoddi opsiynau ar gyfer cyflawni gwelliannau i ansawdd dŵr. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Dŵr Cymru. Maent bellach yn gosod dau waith stripio ffosffad gwerth miliynau o bunnoedd i wella iechyd afonydd Gwy ac Wysg a ddylai arwain at welliannau sylweddol i ansawdd dŵr yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi cyflawni ystod o brosiectau sy'n seiliedig ar natur gan ddod â manteision i wydnwch ecosystemau a lliniaru newid hinsawdd.

Rydym yn gwneud cynnydd da gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni. Mae cardiau sgôr a gyhoeddwyd gan Argyfwng Hinsawdd y DU yn dangos bod Sir Fynwy wedi gwella ei gwaith tuag at sero net dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mai hi yw'r ail berfformiwr gorau yng Nghymru o ran gweithredu ar argyfwng hinsawdd, gan gynyddu 9 lle o'i gymharu â 2023. Hefyd, graddiodd yr asesiad annibynnol hwn Sir Fynwy fel yr awdurdod lleol sy'n perfformio orau yn y DU o ran lleihau gwastraff a bwyd. Rydym yn cydnabod ei bod yn annhebygol y byddwn yn cyflawni ein huchelgais o ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030 oni bai bod cynnydd sylweddol mewn cyllid. Fodd bynnag, mae'r asesiad allanol annibynnol wedi rhoi sicrwydd ein bod yn gosod y sylfaen i sicrhau trywydd cadarnhaol yn y dyfodol.



**Lle ffyniannus ac uchelgeisiol**

Lle sydd â chanol trefi bywiog, lle gall busnesau dyfu a datblygu

## Lle sy'n ffynnu a'n uchelgeisiol

**Ein Hasesiad: 4 (Da)**

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, i gyflawni amrywiaeth o brosiectau sy'n cyfrannu at economi leol amrywiol lle gall busnesau a gweithwyr ffynnu.

Rydym wedi cynhyrchu strategaeth drafnidiaeth leol newydd ar gyfer Sir Fynwy a gafodd ei chymeradwyo ym mis Mai 2024. Mae hon yn gosod blaenoriaethau clir ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Rydym hefyd wedi cyfrannu at ddatblygiad y cynllun trafnidiaeth rhanbarthol.

Ym mis Ebrill 2024, gwnaethom sicrhau hyd at £8.4m i weithredu prosiectau trafnidiaeth ledled y sir i wella mynediad, diogelwch a seilwaith. Rydym wedi gwneud newidiadau i wasanaethau bysiau lleol, gyda gweithredwr newydd yn gyfrifol am rai llwybrau ac mae sawl gwasanaeth yn cael eu haddasu i wella cysylltiadau ac effeithlonrwydd. Rydym wedi gweithio gyda grŵp gweithgar o drigolion i gyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn gorsaf newydd Llwybr Cerdded Magwyr i wella cysylltedd. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn blaenoriaethu cyllid ar gyfer yr orsaf hon, gan ddod â manteision amgylcheddol ac economaidd i'r ardal.

Fel pob rhan o'r DU, mae gennym ôl-groniad o ran y gwaith cynnal a chadw priffyrdd sy'n fwy na'r cyllid sydd ar gael. I ddechrau mynd i'r afael â hyn, rydym wedi dyrannu £2.3M ychwanegol o wariant cyfalaf yn ein cyllideb 2025-26 ar gyfer seilwaith gyda'r mwyafrif yn cael ei wario ar welliannau ffyrdd.

Rydym wedi sefydlu partneriaethau creu lleoedd ym mhob un o'r chwe thref yn y sir. Mae'r rhain wedi cynnwys trigolion lleol, busnesau a sefydliadau gwirfoddol. Sicrhawyd dros £800k mewn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau canol trefi yn 2024/25. Hyd yn hyn, gwnaed gwelliannau i 17 o adeiladau canol trefi ac eiddo masnachol, gan ddechreua ail-ddefnyddio eiddo a oedd yn wag. Mae hyn yn helpu i gyfrannu at fywiogrwydd canol trefi ledled ein sir. Mae prosiectau'n cynnwys gwelliannau i'r ganolfan ieuenctid yng Nghil-y-coed ac adnewyddu adeilad a oedd gynt yn adfeiliedig yng Nghas-gwent i'w ddefnyddio fel prosiect bwyd cymunedol lleol. Roedd 72% o'r bobl a ymatebodd i'n harolwg trigolion yn teimlo'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw.

Bu cynnydd yng nghanran y rhai sy'n gadael yr ysgol a'n Bobl Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) o 1.8% (14 o bobl ifanc) yn 2022 i 3.1% (25 o bobl ifanc) y llynedd. Rydym yn cydnabod bod hwn yn faes y mae angen i ni ei wella. Rydym wedi datblygu Strategaeth Atal newydd ar gyfer Pobl Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant. Mae'r strategaeth yn dangos ein hymrwymiad i sicrhau canlyniadau a chyfleoedd gwell i bobl ifanc, trwy waith cydweithredol.

Rydym wedi darparu cyngor neu gymorth i 89 o fusnesau lleol fel rhan o'n hymrwymiad i alluogi pobl o bob oed a chefndir i gael y sgiliau i wneud yn dda yn y gwaith neu ddechrau eu busnes eu hunain. Mae hyn islaw'r targed a osodwyd gennym i ni ein hunain ac yn fras yr un fath â'r nifer a gynorthwywyd yn 2022. Mae 79.9% o boblogaeth Sir Fynwy yn economaidd weithgar. Mae hyn yn gyson â'r sefyllfa yn 2022 ac yn parhau i fod uwchlaw'r cyfraddau cyfartalog ar gyfer Cymru a Phrydain Fawr. Yn gyffredinol, mae Sir Fynwy wedi'i rhestru fel yr ail ardal fwyaf cystadleuol yn economaidd yng Nghymru, y tu ôl i Gaerdydd.










## Lle diogel i fyw

Ein Hasesiad: 4 (Da)

Rydym wedi cymryd camau i leihau digartrefedd ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau cyflenwad o gartrefi o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn y dyfodol.

Rydym wedi paratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid ac wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn. Mae'r cynllun yn nodi sut y bydd tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cartrefi a chyflogaeth hyd at 2033. Yn unol â'n hymrwymiadau hinsawdd, bydd pob eiddo newydd yn ymgorffori technoleg cynhyrchu ynni adnewyddadwy, systemau gwresogi carbon isel a phwyntiau gwefru cerbydau trydan. Yn ogystal â'r manteision amgylcheddol, bydd hyn yn lleihau biliau ynni'r aelwydydd hyn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i 50% o'r cartrefi ar bob safle fod yn fforddiadwy gyda chymysgedd o fathau o dai i ddiwallu anghenion lleol.

Mae datblygu eiddo newydd wedi ei gyfyngu yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd cyfyngiadau cynllunio sy'n deillio o lefelau ffosffad uchel mewn afonydd. Gwnaethom ddarparu 71 o gartrefi fforddiadwy yn 2024/25, y ffigur uchaf yn y tair blynedd diwethaf, gan ddod â'r cyfanswm dros y cyfnod hwnnw i 198. Fe wnaethon ni hefyd roi caniatâd cynllunio ar gyfer 108 o gartrefi fforddiadwy, mwy na dwbl y cyfanswm ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

Mae prisiau uchel eiddo a phrinder llety rhent preifat fforddiadwy wedi cyfrannu at broblem digartrefedd gynyddol yn Sir Fynwy. Rydym wedi mabwysiadu dull ailgartrefu cyflym. Yn 2024/25, llwyddom i atal 71% o aelwydydd mewn perygl rhag dod yn ddigartref, gwelliant sylweddol ar ffigur 2022 o 50%. Rydym hefyd wedi bod yn caffael neu'n ailddefnyddio eiddo fel dewisiadau amgen i lety Gwely a Brecwast anaddas a chostus. O ganlyniad, rydym wedi gallu lleihau nifer yr aelwydydd digartref a osodwyd mewn Gwely a Brecwast o 90 yn 2022 i 20 yn 2024/25. Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi lleihau'r defnydd o Wely a Brecwast ar gyfer teuluoedd â phlant i ddim.

Rydym wedi gweithio gyda phobl ifanc ledled y sir i fynd i'r afael â phryderon ynghylch troseddau cyllyll ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB). Gwnaethom sicrhau cyllid ar gyfer cynllun peilot yng Nghil-y-Coed yn 2024, gan gynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael gan weithwyr ieuenctid a thargedu pobl ifanc sy'n ymwneud ag ASB trwy gyfanswm o 121 o sesiynau. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 23% mewn digwyddiadau ASB yn y dref. At ei gilydd, mae cyfraddau ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled y sir wedi gostwng ychydig yn ystod y tair blynedd diwethaf, er bod y gyfradd droseddu gyffredinol yn y sir wedi cynyddu. Canfu arolwg y trigolion fod 90% o'r ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn ystod y dydd, tra bod 66% yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi nosi.

Lle cysylltiedig

Lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi

Ein Hasesiad: 4 (Da)

# Lle cysylltiedig lle mae pobl yn gofalu

Rydym yn newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod Sir Fynwy yn sir lle mae cyfraniadau pobl yn cael eu gwerthfawrogi, eu bod yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn gysylltiedig ag eraill. Rydym yn gwneud hyn drwy fabwysiadu dull mwy ataliol, ymyrryd yn gynharach a dod â rhywfaint o ddarpariaeth yn ôl i'r sir.

Mae gwariant ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cymryd cyfran gynyddol o'n cyllideb bob blwyddyn o ganlyniad i alw cynyddol ac anghenion mwy cymhleth. Mae yna lawer o ffactorau sy'n effeithio ar ein hiechyd a'n lles. Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn gwahanol ffyrdd i fynd i'r afael â gwraidd hyn, gan ddod yn yr hyn a elwir yn Rhanbarth Marmot. Un o'r ffyrdd yr ydym yn gwneud hyn yw trwy ddatblygu dull mwy ataliol lle mae cymorth cynnar a galluogi pobl yn flaenoriaeth. Roedd hwn yn faes datblygu a nodwyd yn ein hunanasesiad diwethaf.

Mae cymorth cynnar yn hanfodol i atal plant rhag dod i ofal yr awdurdod lleol. Rydym wedi sefydlu dull cydlynol o ymyrryd yn gynnar mewn gwasanaethau cymdeithasol plant. Rydym wedi goruchwylio gostyngiad graddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal o 209 i 190 dros y tair blynedd diwethaf. Rydym hefyd yn datblygu mwy o lety preswyl a llety â chymorth yn y sir. Mae un datblygiad wedi'i gwblhau ac mae tri arall ar y gweill. Mae hyn yn caniatáu i blant gynnal cysylltiadau lleol ac yn ein helpu i leihau costau.

Mae recriwtio gofalwyr maeth yn her sylweddol ledled y DU. Rydym wedi gwella ein cynnig i ofalwyr maeth ac wedi hysbysebu'n helaeth. Rydym wedi cyflawni cynnydd bach, ond nid yw hyn yn ddigonol i ddiwallu ein hanghenion. Roedd 35.8% o leoliadau plant sy'n derbyn gofal gyda gofalwyr maeth mewnol. Mae hyn ychydig yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol ac yn is na'r targed o 43% a osodwyd gennym i ni ein hunain.

Rydym am helpu pobl hŷn agored i niwed i adennill eu hannibyniaeth. Gwnaethon ddarparu 309 o becynnau gofal ail-alluogi y llynedd o'i gymharu â 240 yn 2021/22. Mewn 55.7% o achosion, gwnaeth hyn liniaru neu leihau angen pobl am gymorth hirdymor. Pan fydd angen gofal hirdymor ar bobl , gall fod yn anodd weithiau dod o hyd i'r gofal sydd ei angen arnynt. Rydym wedi canolbwyntio'n ddi-baid ar hyn gan weithio gyda'n partneriaid, ac rydym bellach yn diwallu 98.2% o'r anghenion a aseswyd ar gyfer gofal gartref, i fyny o 96.6% yn y flwyddyn flaenorol. Rydym wedi mwy na haneru nifer yr oriau gofal heb eu diwallu ers 2022.

Ym mis Mawrth 2024, agorwyd cartref gofal arbenigol newydd pwrpasol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Mae gan y cartref 32 ystafell wely ar gyfer cymorth hirdymor a chymorth tymor byr ar ffurf seibiant yn seiliedig ar fodel gofal sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd.

At ei gilydd, dywedodd 84.7% o oedolion sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol wrthym eu bod yn hapus gyda'r gofal a'r gefnogaeth a gawsant. Mae hyn tua'r un fath â'r flwyddyn flaenorol ond tua phum pwynt canran yn is na'r lefelau cyn y pandemig.








## Lle i ddysgu

Ein Hasesiad: 4 (Da)

Rydym wedi gweithio gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg rhanbarthol i herio, monitro a gwerthuso addysgu a dysgu mewn ysgolion. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i wneud Sir Fynwy yn lle lle mae pawb yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn cael cyfle i ddysgu, gan ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen arnynt i gyrraedd eu potensial.

Yn 2024, cyflawnodd ein hysgolion uwchradd ganlyniadau uwch nag mewn mannau eraill yng Nghymru. Y sgôr gyfartalog o 9 pwynt wedi'i gapio oedd 369.8 yn Sir Fynwy, o'i gymharu â chyfartaledd o 358.1 ledled Cymru. Perfformiodd y rhan fwyaf o'n disgyblion yn unol â'u disgwyliadau. At ei gilydd, cyflawnodd 27.5% o ddisgyblion ledled Sir Fynwy 5 TGAU neu fwy ar lefelau A*-A, o'i gymharu â 18.1% ar gyfer Cymru. Mae gennym hefyd lai o ddisgyblion yn gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau.

Rydym wedi datblygu Strategaeth Gynhwysiant newydd a Pholisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'i ddiweddaru i lywio ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc . Rydym wedi sicrhau cyllid Ffyniant a Rennir i gyflawni'r Rhaglen Ysbrydoli. Mae hyn wedi ein galluogi i gefnogi 340 o bobl ifanc ers mis Ionawr 2023, gan ddarparu sgiliau bywyd a chymwysterau sy'n gwella eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod anghenion dysgwyr agored i niwed, sy'n cynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn cael eu diwallu. Ar gyfartaledd, perfformiodd disgyblion Sir Fynwy sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn well na'r rhai mewn rhannau eraill o Gymru. Er gwaethaf hyn, mae cyrhaeddiad dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na'r rhai nad ydynt yn gymwys. Byddwn yn parhau i weithio gydag ysgolion i archwilio camau gweithredu i leihau'r bwlch hwn.

Rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion i wella presenoldeb. Bu gwelliant graddol ym mhresenoldeb ysgolion cynradd ers y pandemig. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023/24 roedd presenoldeb yn 93.6%; mae data dros dro yn dangos bod presenoldeb wedi cynyddu i 94.1% yn nhymor yr haf 2024/25. Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn arafach i ddychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Roedd presenoldeb yn 88.2% yn y flwyddyn academaidd 2023/24. Mae ffigurau dros dro yn dangos bod hyn wedi gwella i 90.1% erbyn tymor yr haf 2024/25.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein cefnogaeth i leihau ac atal ymddygiadau sy'n heriol yn ein hysgolion. Rydym wedi gweithredu dull ysgol gyfan o ran lles emosiynol a meddyliol. Mae hyn yn helpu ysgolion i ddeall sut maent yn y sefyllfa orau i hyrwyddo lles.

Rydym wedi cwblhau adeiladu ysgol newydd y Brenin Harri VIII i blant 3-19 oed yn y Fenni. Yr adeilad yw'r ysgol gyntaf yng Nghymru sydd â charbon sero net, yn unol â'n hymrwymiad i ddatgarboneiddio ein gweithrediadau. Mae'n darparu canolfan ar gyfer dysgu yn y Fenni, gan greu amgylchedd lle gall pobl ifanc ffynnu yn ogystal â gwella cyfleusterau hamdden ar gyfer y gymuned ehangach. Rhagwelir y bydd y datblygiad yn lleihau nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol uwchradd y tu allan i'r sir.



## Pa mor effeithiol yw'r defnydd o adnoddau i gyflawni ein blaenoriaethau?

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi datblygu strategaethau galluogi i sicrhau ein bod yn alinio ein holl adnoddau i gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol. Rydym wedi gwerthuso'r rhain ac wedi dod i'r casgliad bod gennym drefniadau cadarn ar waith i alluogi a chefnogi darparu gwasanaethau.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio'r set graidd o weithgareddau sy'n gyffredin i lywodraethu corfforaethol cyrff cyhoeddus. Rydym wedi asesu pob un o'r rhain gan ddefnyddio ein fframwaith gwerthuso:

**Cynllunio corfforaethol, perfformiad a rheoli risg. Gwnaethom asesu hyn fel lefel 4 (Da) – Heb newid ers y llynedd.**

**Cynllunio ariannol. Gwnaethom asesu hyn fel lefel 4 (Da). Heb newid ers y llynedd.**

**Cynllunio'r gweithlu (pobl). Gwnaethom asesu hyn fel lefel 4 (Da). Gwelliant ar sgôr asesu'r llynedd.**

**Caffael. Gwnaethom asesu hyn fel lefel 3 (Digonol). Heb newid ers y llynedd.**

**Asedau. Fe wnaethon ni asesu hyn fel lefel 5 (Da Iawn). Gwelliant ar sgôr asesu'r llynedd.**

**Digidol a data. Gwnaethom asesu hyn fel lefel 3 (Digonol). Heb newid ers y llynedd.**

**Democratiaeth a chraffu. Gwnaethom asesu hyn fel lefel 4 (Da). Heb newid ers y llynedd.**

Mae rhagor o fanylion am y rhain ar gael fel rhan o'r gwerthusiad llawn sydd ar gael yn: www.monmouthshire.gov.uk/improvement.

## Pa mor effeithiol mae'r Cyngor yn gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid ar ganlyniadau y cytunwyd arnynt?

Mae gweithio mewn partneriaeth yn un o'r ffyrdd y gallwn gyflawni ein hamcanion wrth ddarparu gwerth am arian. Mae partneriaid allweddol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent. Nododd adolygiad a gynhaliwyd gan ein Tîm Archwilio Mewnol fod lefel resymol o sicrwydd ar waith ar gyfer trefniadau llywodraethu'r awdurdod yn seiliedig ar sampl o bartneriaethau. Rydym bellach wedi datblygu pecyn cymorth a chanllawiau i gryfhau ein trefniadau yn y maes hwn.

## Meysydd ar gyfer Datblygu

**O ganlyniad i'r hunanasesiad, rydym wedi nodi nifer o feysydd i'w datblygu. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- Datblygu mwy o leoedd gofal plant, gan gynnwys Dechrau'n Deg a lleoedd cyfrwng Cymraeg.
- Datblygu atebion i fynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Cryfhau ein capasiti a'n gallu mewn meysydd digidol a data i gyflawni effaith ar raddfa fawr.
- Cryfhau ein trefniadau caffael i sicrhau y gallwn gyflawni'r uchelgais yn ein Strategaeth Caffael Cymdeithasol Gyfrifol.

## Mesur Cynnydd

Rydym yn defnyddio ystod eang o fesurau perfformiad i werthuso ein cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau. Mae'r rhain i'w cael drwy gydol yr asesiad. Rydym hefyd yn olrhain cynnydd yn erbyn ystod o fesurau canlyniad ar lefel y boblogaeth. Cyflwynir mesurau allweddol yn rheolaidd i'r Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg fel y gallwn reoli perfformiad ac addasu'r ddarpariaeth lle nad ydym yn cyrraedd ein disgwyliadau.



**Beth yw eich barn chi?**

**Rydym wedi defnyddio rhywfaint o'r adborth a gawsom gan sefydliadau eraill i lunio'r adroddiad hwn a byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn i'n helpu i lywio asesiadau yn y dyfodol. Anfonwch e-bost atom: improvement@monmouthshire.gov.uk**